# Ffurflen ymateb i ymgynghoriad

Cwblhewch y ffurflen hon yn llawn a dychwelwch hi i Channel4LicenceRenewal@ofcom.org.uk

| | |
|---|---|
| **Teitl yr ymgynghoriad** | Ailymgynghoriad: Adnewyddu Trwydded Channel 4 |
| **Enw llawn** | [redacted] |
| **Rhif ffôn cyswllt** | [redacted] |
| **Yn cynrychioli (dileer fel y bo'n briodol)** | Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol |
| **Enw'r sefydliad** | Senedd Cymru |
| **Cyfeiriad e-bost** | SeneddDiwylliant@senedd.cymru |

## Cyfrinachedd

Byddwn yn gofyn am eich manylion cyswllt ynghyd â'ch ymateb er mwyn i ni ymgysylltu â chi ar yr ymgynghoriad hwn. I gael gwybodaeth bellach am sut mae Ofcom yn trin eich gwybodaeth bersonol a'ch hawliau cyfatebol, gweler Datganiad Preifatrwydd Cyffredinol Ofcom.

| | |
|---|---|
| **Eich manylion: Byddwn yn cadw eich rhif ffôn cyswllt a'ch cyfeiriad e-bost yn gyfrinachol. Oes unrhyw beth arall rydych eisiau ei gadw'n gyfrinachol? Dileer fel y bo'n briodol.** | Dim byd |
| **Eich ymateb: Nodwch faint o'ch ymateb rydych eisiau ei gadw'n gyfrinachol. Dileer fel y bo'n briodol.** | Dim |
| **Ar gyfer atebion cyfrinachol, a all Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb?** | Gall |

## Eich ymateb

| Cwestiwn | Eich ymateb |
|---|---|
| **Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effaith bosibl ar grwpiau penodol o bobl?** | |
| **Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effaith ar y Gymraeg?** | |
| **Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'r cynigion canlynol:**<br><br>a) nes 31 Rhagfyr 2029, bydd yn rhaid i o leiaf 9% o'r oriau o raglenni ym mhob blwyddyn galendr a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar wasanaeth Channel 4 gael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr, ac y bydd yn rhaid i o leiaf 9% o'r gwariant ar raglenni a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar y gwasanaeth gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni y tu allan i Loegr ac yn berthnasol i gynhyrchu rhaglenni mewn canolfannau cynhyrchu yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon?<br><br>b) o 1 Ionawr 2023 ymlaen, bydd yn rhaid i o leiaf 12% o'r oriau o raglenni ym mhob blwyddyn galendr a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar wasanaeth Channel 4 gael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr, ac y bydd yn rhaid i o leiaf 12% o'r gwariant ar raglenni a gaiff eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar y gwasanaeth gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni y tu allan i Loegr ac yn berthnasol i gynhyrchu rhaglenni mewn canolfannau cynhyrchu yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon? | Fel y nodir yn adroddiad y Pwyllgor, Y sefyllfa sydd ohoni: Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru, mae darlledu yn chwarae rhan bwysig wrth bortreadu hunaniaeth Gymreig, yn ogystal â chwarae rhan bwysig yn ein democratiaeth, drwy sicrhau bod systemau llywodraethu yn cael eu dwyn i gyfrif. Bu cyflenwad annigonol o gynnwys y cyfryngau yng Nghymru ers tro byd.<br><br>Yn yr adroddiad uchod, galwodd y Pwyllgor am fwy o wario gan y BBC ac ITV yng Nghymru. Gwnaed yr argymhellion a ganlyn:<br><br>• Dylai gwariant y BBC ar gynnwys teledu Saesneg yng Nghymru dyfu o'r naill flwyddyn i'r llall nes ei fod yn cyd-fynd â gwariant y BBC ar gynnwys Saesneg yn yr Alban.<br>• Dylai Ofcom gynnwys gofyniad i drwydded Sianel 3 yng Nghymru gynhyrchu cyfran uwch o gynnwys rhwydwaith yng Nghymru.<br><br>Gan hynny, mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw'r cynigion presennol yn ddigon heriol. Dylid cyflwyno'r cwotâu uwch arfaethedig yn gynt, a dylid ystyried cynyddu'r cwotâu y tu allan i Loegr mewn blynyddoedd dilynol. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai fod yn dda o beth edrych ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gofynion gwariant sy'n benodol i bob un o'r gwledydd. Dylai Ofcom o leiaf ei gwneud yn ofynnol defnyddio mecanwaith i sicrhau bod gwariant y tu allan i Loegr wedi'i ledaenu'n deg ar draws gwledydd y DU.<br><br>Mae'r Pwyllgor hefyd yn meddwl y dylai Channel 4 wneud mwy i sicrhau y gall pobl ledled Cymru weld |

| Cwestiwn | Eich ymateb |
|---|---|
| | eu storïau'n cael eu hadlewyrchu ar y sgrin a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli gan y gwasanaethau a gânt. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yr un mor bwysig i Ofcom fod yn uchelgeisiol o ran yr hyn y mae'n gofyn i Channel 4 ei wneud i wella'r ffordd y mae'n cynrychioli ac yn portreadu bywyd yng Nghymru. |
| **Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'n canllawiau arfaethedig i C4C ar y ffordd y dylai adrodd ar ei gynyrchiadau MoE yn ei SMCP?** | |

Cwblhewch y ffurflen hon yn llawn a dychwelwch hi i Channel4LicenceRenewal@ofcom.org.uk.